## P-05-695 – Cyflwyno Addysg Iechyd Meddwl Orfodol mewn Ysgolion Uwchradd

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Plaid Ifanc Llanelli ar ôl casglu 24 llofnod.

### Geiriad y ddeiseb

*Mae salwch meddwl yn fater sydd bob amser wedi dioddef llawer o stigma mewn cymdeithas. Mae'r geiriau 'Gwallgof', 'Gorffwyll', 'Lloerig' bellach yn eiriau normal ar gyfer disgrifio rhywun gorfywiog, neu'n waeth na hynny, ar gyfer disgrifio unigolyn sy'n cael pwl seiciatrig.*

*Ym mis Hydref 2015, cynigiodd Brett John a Ffion Rees, Cadeirydd ac Ysgrifennydd Plaid Ifanc Llanelli, gynnig i gynhadledd i gyflwyno addysg iechyd meddwl mewn ysgolion uwchradd. Cafodd ei dderbyn gyda chlod. Fodd bynnag, rydym am wneud llawer mwy na hynny. Rydym yn credu, drwy gyflwyno addysg iechyd meddwl, y gallwn drechu'r stigma sy'n gysylltiedig â salwch meddwl cyn iddo ddechrau o ddifri ymysg myfyrwyr uwchradd. Bydd yn dysgu amrywiaeth o wersi i fyfyrwyr, fel sut mae'n iawn i beidio â bod yn iawn, pam bod salwch meddwl yn datblygu, a'r cymorth sydd ar gael os ydynt yn dioddef.*

### *Gwybodaeth ychwanegol*

*Dyna pam ein bod yn gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno addysg iechyd meddwl orfodol i ysgolion uwchradd. Dim ond drwy ddechrau'r sgwrs yn gynnar y gallwn atal y stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl rhag datblygu ymysg ein pobl ifanc.*

*Pobl ifanc heddiw yw ein dyfodol. Rhaid i ni sicrhau, drwy ddarparu addysg ar iechyd a lles meddwl iddyn nhw, na fyddant byth yn ei weld fel rhywbeth negyddol. Yn y pen draw, gallwn gael gwared ar y stigma, ond mae'r sgwrs i ddechrau'r broses hon ymysg ein pobl ifanc yn dechrau nawr.*

## Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Llanelli
- Canolbarth a Gorllewin Cymru